

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth)
i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y
Gwynt), Bangor, Gwynedd)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiad
Traffig Dros Dro) 2024

The A55 Trunk Road (Junction 9
(Treborth Interchange) to Junction
11 (Llys y Gwynt Interchange),
Bangor, Gwynedd) (Temporary
Traffic Prohibitions & Restriction)
Order 2024

Gwnaed 4 Mehefin 2024

Made 4 June 2024

Yn dod i rym 8 Mehefin 2024

Coming into force 8 June 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mehefin 2024.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 9 (Treborth Interchange) to Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions & Restriction) Order 2024 and this Order comes into force on 8 June 2024.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 8 Mehefin 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darnau hynny o gefnffordd yr A55 Caer i Fangor a bennir yn yr Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar gerbyttffordd tua’r gorllewin y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua’r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 10, nad yw’n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua’r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbyttffordd tua’r dwyrain y darn o’r gefnffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r gorllewin.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means those lengths of the A55 Chester to Bangor trunk road specified in the Schedule to this Order;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 8 June 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and restriction

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the westbound carriageway of the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited in the westbound carriageway but, pursuant to article 10, not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive any vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway of the length of the trunk road in any direction other than westwards.

5. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwysio

10. Ni fydd y cyfyngiadau na'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

11. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 9 yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 Gwrthlif a gwahardd beicwyr a cherddwyr

Cyfnod 1

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi tua 500 metr i'r dwyrain o drosbont ddwyreiniol

6. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or greater than 3.2 metres on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

7. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order.

8. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2 to this Order.

9. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

Application

10. The prohibitions and restriction in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

11. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 9 applies.

Duration of this Order

12. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for North Wales and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated 4 June 2024

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1 Contraflow and prohibition of cyclists and pedestrians

Phase 1

The length of the trunk road that extends from the crossover point approximately 500 metres east of the

Cylchfan Llys y Gwynt Cyffordd 11 hyd at y pwynt croesi 200 metr i'r gorllewin o drosbont Cyffordd 9 Treborth.

Cyfnod 2

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r pwynt croesi 200 metr i'r gorllewin o drosbont Cyffordd 9 Treborth hyd at y pwynt croesi 300 metr i'r gorllewin o ganolbwynt tanbont Ffordd Caernarfon Cyffordd 10.

ATODLEN 2

Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o danbont Ffordd Caernarfon wrth Gyffordd 10 hyd at Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darnau o holl gilfannau'r gefnffordd rhwng Cyffordd 10 ac 11.

ATODLEN 3

Gwahardd dros dro gerbydau sy'n lletach na 3.2 metr

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r gorllewin o danbont Ffordd Caernarfon Cyffordd 10 hyd at bwynt 500 metr i'r gorllewin o drosbont ddwyreiniol yr A55 Cyffordd 11 Llys y Gwynt.

ATODLEN 4

Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) hyd at Gyffordd 12 (Tal-y-bont).

eastern overbridge of the Junction 11 Llys y Gwynt Roundabout to the crossover point 200 metres west of the Junction 9 Treborth overbridge.

Phase 2

The length of the trunk road that extends from the crossover point 200 metres west of the Junction 9 Treborth overbridge to the crossover point 300 metres west of the centre-point of the Junction 10 Caernarfon Road underbridge.

SCHEDULE 2

Temporary prohibition of vehicles, cyclists and pedestrians

The length of the trunk road that extends from the Caernarfon Road underbridge at Junction 10 to Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

The length of the westbound exit slip road at Junction 10 (Caernarfon Road Interchange).

The length of the westbound entry slip road at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

The length of the eastbound entry slip road at Junction 10 (Caernarfon Road Interchange).

The length of the eastbound exit slip road at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

The lengths of all trunk road laybys located between Junctions 10 and 11.

SCHEDULE 3

Temporary prohibition of vehicles over 3.2 metres

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 300 metres west of the Junction 10 Caernarfon Road underbridge to a point 500 metres west of the A55 Junction 11 Llys y Gwynt east overbridge.

SCHEDULE 4

Temporary 40 mph speed limit

The length of the trunk road that extends from Junction 9 (Treborth Interchange) to Junction 12 (Tal-y-bont).